

Eitem: 11

Teitl: Diweddariad y gweithlu

Gweithredu / Action required	Er gwybodaeth
Amseru / Timing	Arferol
Argymhelliad / Recommendation	Bod y Bwrdd yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn
Risg / Risk	CR1 – Pobl a sgiliau – sicrhau ein bod yn cadw ac yn caffael y cymysgedd sgiliau mewn meysydd allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau. Mae hefyd yn cyd-fynd ag Archwaeth Risg RA8 – awydd brwd i helpu ein pobl i wneud pethau'n wahanol ac yn well.
Cyllid / Finance	Swyddi gwag/newydd wedi'u cyllidebu.
Amcan Cynllun Corfforaethol/Corporate Plan Objective / Amcan Rhaglen/Programme Objective	I dyfu a gwella fel sefydliad
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn nodweddion ym mhopeth a wnawn gyda'n pobl yn Llais.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒ Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☐ Allanol: enw da ein sefydliad ☐
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol
Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions	28 Gorffennaf 2025

Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting	Cyfarwyddwr Pobl, Llesiant a Datblygu Sefydliadol/Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol
Dyddiad / Date	8 Medi 2025
Cefndir / Background	
Pwrrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar gynnydd materion allweddol yn ymwneud â'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau recriwtio, dysgu a datblygu, gwaith polisi a gweithgareddau datblygu sefydliadol. Mae'r Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn craffu ar faterion y gweithlu yn fanylach. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 16 Gorffennaf 2025, a chynhelir y nesaf ar 3 Hydref 2025. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys dangosfwrdd llawn oherwydd ei fod yn cael ei gynhyrchu bob chwarter. Mae dangosfwrdd llawn nesaf y sefydliad wedi'i drefnu i'w gynhyrchu ddiwedd mis Medi.	
Manylion / Detail	
Tîm pobl Ymunodd ein Rheolwr Pobl a Datblygu Sefydliadol newydd â ni ym mis Gorffennaf 2025. Yn dilyn y cyfnod sefydlu a'r absenoldeb mae gennym ni nawr gynhwysedd ychwanegol a groesawgar iawn o fewn y tîm, gyda chyfrifoldeb penodol am arwain ar gynlluniau a gweithgareddau datblygu sefydliadol. Rydym yn bwriadu ail-hysbysebu rôl cynorthwydd newydd yn fuan. Recriwtio Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Mewnwelediadau i gyflwyno ymgyrch recriwtio genedlaethol gyfannol bwrpasol ar gyfer rôl Pennaeth Rhanbarthol Eiriolaeth Cwynion ac Ymgysylltu sydd newydd ei datblygu. Bydd 4 rhanbarth yn recriwtio i'r rôl hon. Mae'r ymgyrch recriwtio hon yn gyfle i dreialu dull amgen i'r broses recriwtio draddodiadol arferol. . Isod mae crynodeb o sefyllfa'r gweithgaredd recriwtio cyfredol yn Llais.	
Rôl	Cam recriwtio

Eiriolwr Cwynion – rhanbarth Gwent	Rhestr fer.
Gweinyddwr Systemau TGCh	Hysbyseb
Cynorthwydd Cymorth Gwasanaethau Pobl	Disgwylir mynd i'r hysbyseb
Pennaeth Rhanbarthol Eiriolaeth Cwynion ac Ymgysylltu (3.4 CALI yn rhanbarthau Gwent, Powys, Gogledd Cymru a Chastell-nedd, Port Talbot ac Abertawe)	Datblygu ymgyrch recriwtio
Partner Ymgysylltu Rhanbarthol - band dangosol 5 - 2 CALI Rhanbarthau Caerdydd a Bro Morgannwg a Phowys	Yn aros am werthusiad swydd
Cymorth Ymgysylltu Rhanbarthol – band dangosol 4 – 4 CALI Rhanbarthau Cwm Taf, Gogledd Cymru, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a Gwent	Rôl yn cael ei datblygu ac i fod i gael ei chynnal ar gyfer ymgynghoriad staff ac undebau llafur yn fuan.
Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau	Gwerthusiad

Diweddariad dysgu a datblygu

Dros y chwarter diwethaf, rydym wedi parhau i fonitro a chefnogi cwblhau gofynion dysgu gorfodol yn weithredol ar draws y sefydliad.

Yn ogystal â dysgu gorfodol, mae amrywiaeth o sesiynau dysgu a datblygu wedi'u cyflwyno i wella gallu a hyder staff yn eu rolau. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Hyfforddiant sefyllwyr
- Hyfforddiant diogelu data (a oedd yn cynnwys torri data a chadw data)
- Datblygu trefniadau fforymau cyhoeddus
- Defnydd effeithiol o Adobe a Canva
- Ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth a dementia

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi anghenion datblygiad personol unigol fesul achos. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau penodol i'r rôl, fel hyfforddiant eiriolaeth cwynion, yn ogystal â chyfleoedd datblygu ehangach fel hyfforddi a mentora.

Adolygiad polisi

Mae'r polisiâu canlynol wedi cael eu hadolygu a'u drafftio:

- Polisi absenoldeb a thâl gofal newyddenedigol – polisi newydd i'w graffu yng Nghyfarfod Pwyllgor GTAThG ym mis Hydref.
- Atal aflonyddu rhywiol – polisi newydd i'w graffu yng Nghyfarfod y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth ym mis Hydref.
- Polisi diogelu – adolygiad a diwygiad i'r polisi hwn.

Bydd y polisiâu canlynol yn cael eu hadolygu'n fuan gan ein Tîm Gweithredol a'u hanfon at staff ac undebau llafur i ymgynghori arnynt:

- Codi pryder
- Polisi newid sefydliadol
- Absenoldeb arbennig.

Strategaeth pobl

Rydym wedi datblygu strategaeth Pobl ymhellach a fydd yn ein helpu i sicrhau bod galluoedd pobl ein sefydliad yn cyd-fynd â'n nodau a'n blaenoriaethau hirdymor.

Bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar y 18 mis nesaf i gyd-fynd ag amserlenni ein strategaeth sefydliadol lawn. Yn dilyn prosesau craffu mewnol, caiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth nesaf i'w ystyried.

Dangosfwrdd y gweithlu

Er nad yw'r dangosfwrdd yn barod i'w gyhoeddi ar hyn o bryd (gan eu bod yn rhedeg bob chwarter mewn ôl-ddyledion gyda data o'n system Cofnodion Staff Electronig), mae'r arwyddion yn dangos bod meysydd pryder blaenorol, a nodwyd yn ystod misoedd cynharach y flwyddyn hon, sef modiwlau e-ddysgu ac absenoldeb salwch hirdymor, yn dangos gwelliannau. Bydd y dangosfwrdd llawn yn cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu ar ddiwedd y chwarter.